

Fforwm Mynediad Lleol Sir Gaerfyrddin

Dydd Iau 22 Awst 2013

a gynhaliwyd yng Nghanolfan Addysg Gymunedol Llandeilo am 6pm

Yn bresennol:

Jonathan Tudor (JT) - Ysgrifennydd

Yr Aelodau:

Karen Burch (KB) - Cadeirydd
Mark Hadley (MH) - Is-gadeirydd
Keith Morgan (KM)
Eric Davies (ED)
Glyn Evans (GE)

Caroline Evans (CE)
Chris Rankin (CR)
Llew Thomas (LT)
Jillie Gardiner (JL)

Ymgynghorwyr/Sylwedyddion/Siaradwyr/Aelodau o'r Cyhoedd

David Stacey (DS)
Phil Stone - CNC (PS)

Ymddiheuriadau (Aelodau)

Rosemary Jones (RJ)

Ymddiheuriadau (Ymgynghorwyr)

Mike Scott-Archer - (FfMLI PCBB)
Marie George (CNC)
Russell Jones (CNC)
Mark James (CSC)

	CAM GWEITH REDU
Eitem 1 Croeso – Estynnodd KB groeso i bawb i'r cyfarfod.	
Eitem 2 Ymddiheuriadau - Cyflwynwyd ymddiheuriadau ac fe'u cofnodwyd.	
Eitem 3 Ystyried a Chymeradwyo Cofnodion y Cyfarfod ar 25 Ebrill 2013 Cafodd y cofnodion eu gwirio a derbyniwyd eu bod yn gywir.	
Eitem 4 Materion yn Codi o Gofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Ebrill 2013 <ul style="list-style-type: none">Cilffordd Banc Farm (15/31 ac 15/32), Lliadiad Nennog, Brechfa. Dywedodd JT fod Tread Lightly wedi gosod arwyddion ar y llwybr caniatadol arall y cytunwyd arno gyda'r tîrfeddiannwr er mwyn annog defnyddio llwybr 15/31 ac yna'r llwybr caniatadol i'r gorllewin i ailymuno â llwybr 15/32 (yn hytrach na defnyddio'r rhan o'r Gilffordd sydd ar agor i unrhyw draffig (BOAT) 15/32 sy'n croesi canol y cae).Llwybrau Bronwydd a Llannewydd - roedd JT wedi darparu'r wybodaeth ddiweddaraf.Llwybr Beicio Dyffryn Aman - dywedodd KM nad oedd cytundeb â rhai tîrfeddiannwyr ar ochr Sir Gaerfyrddin o'r ffin. Byddai JT yn gofyn i Adran Gwasanaethau Technegol CSC ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf.Mynediad Lleiaf Rhwystrol - dywedodd JT fod gwelliannau wedi cael eu gwneud ym mlwyddyn ariannol 2012/13 yn y manau canlynol: Parc Natur	JT

<p>Ynys Dawela, y Warchodfa ym Mrynman, Cwarter Bach a Safle Picnic Fforest Blaen Esgair, Castellnewydd Emlyn. Nid oedd cyllideb na rhaglen ym mlwyddyn ariannol 2013/14 ond byddai'r Llwybr Glan yr Afon, Castellnewydd Emlyn yn cynnwys mynediad lleiaf rhwystrol.</p>	
<p>Eitem 5 - Adolygiad o'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy - KB</p> <p>Esboniodd KB ei bod wedi ymateb ar ran y Fforwm Mynediad Lleol i werthusiad o'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy a Chyllido'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy gan ymgynghorwyr a oedd yn gweithio ar ran Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC). Roedd JT wedi darparu gwybodaeth gan CSC i'w helpu.</p> <p>Roedd KB o'r farn fod rhai o'r pwyntiau gweithredu yn y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy, a luniwyd yn 2007 ac sy'n para tan 2017, yn hen erbyn hyn. Awgrymodd KB y dylid adolygu'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy a gofynnodd i'r aelodau roi sylwadau ar y camau gweithredu a oedd ynddo. Dywedodd JT fod y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy wedi bod yn ddefnyddiol o ran hoelio sylw polisïau a gweithredoedd ar wella hawliau tramwy a mynediad i gefn gwlad. Roedd hefyd wedi tynnu sylw at y materion hyn yn y Cyngor. Yn ogystal, fe'i defnyddiwyd fel dogfen gais am gyllid i gwblhau camau gweithredu neu welliannau. Fodd bynnag, roedd rhai o'r camau gweithredu yn y Cynllun yn rhy annelwig ac nid oedd cosb am beidio â chyflawni. Dywedodd PS, Cyfoeth Naturiol Cymru, fod y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy yn ddogfen waith ddefnyddiol i Gynghorau ac y dylent gael eu hadolygu a'u hadnewyddu.</p>	<p>PAW B</p>
<p>Eitem 6 Adroddiad ynghylch Cynhadledd Fforymau Mynediad Lleol Cymru - JT</p> <p>Bu JT yng nghynhadledd Fforymau Mynediad Lleol Cymru yn Llanelwedd ym mis Mehefin. Y siaradwr gwadd oedd Ceri Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Gwybodaeth, Strategaethau a Chynllunio, Cyfoeth Naturiol Cymru, a ddarparodd y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch cylch gorchwyl ac ymagwedd y sefydliad newydd.</p> <p>Roedd Catrin Dellar, Llywodraeth Cymru, wedi darparu'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch y ddeddfwriaeth newydd ar gyfer mynediad awyr agored a ganolbwyntiai ar bedair elfen sef mynediad ehangach, manau gwyrdd, hawliau tramwy a rhandiroedd. Byddai Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ynghylch cynigion i gael gwybod a oes dymuniad i newid y ddeddfwriaeth.</p> <p>Roedd Quentin Grimly, Cyfoeth Naturiol Cymru, wedi rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch llwyddiant Llwybr Arfordir Cymru. Dywedodd mai'r cam nesaf fyddai rhaglen wella ddwy flynedd i newid rhai llwybrau, gwella celfi'r llwybrau a chreu cysylltiadau â phentrefi/cymunedau yn y parth arfordirol (2 gilometr). Eglurwyd bod £1.15m ar gael i gyllido'r rhaglen ddwy flynedd yng Nghymru.</p> <p>Cafwyd cyflwyniadau pellach ynghylch 'Asesu Cymeriad Tirwedd', 'Llwybrau ar y Cyd' (a chôd ymddygiad o bosibl) a phrosiectau Llwybrau Hygyrch ym Mhowys ac yn Sir Ddinbych. (Byddid yn dosbarthu'r nodiadau o'r Gynhadledd).</p>	
<p>Eitem 7 Y Cynllun Datblygu Lleol – KB/JT</p> <p>Eglurodd JT fod cyfnod ymgynghori o chwe wythnos ynghylch Cynllun Datblygu Lleol Sir Gaerfyrddin wedi dechrau ar 31 Gorffennaf 2013. Roedd y Cynllun yn cydnabod mynediad ac yn dweud bod gan hawliau tramwy hefyd rôl hanfodol o ran gwella iechyd a lles ac y dylid ystyried eu rôl yng nghyd-destun y CDLI. Dywedodd fod y manylion llawn ar wefan Cyngor Sir Gaerfyrddin.</p>	

<p>Eitem 8 Llwybrau Eraill â Mynediad i'r Cyhoedd - MH</p> <p>Cyflwynodd MH bapur ynghylch Llwybrau Eraill â Mynediad i'r Cyhoedd a oedd yn ddiweddariad o'i ddadansoddiad blaenorol ym Mehefin 2011. Roedd MH wedi gweld bod nifer helaeth o'r llwybrau wedi'u cofnodi ar Restr Strydoedd CSC ac y dylai hyn gynnig rhywfaint o amddiffyniad iddynt. Dywedodd y bydd angen gwneud rhagor o waith i gael gwybod a yw'r llwybrau a gofnodwyd ar agor mewn gwirionedd. Roedd rhagor o fanylion ym mhapur MH dyddiedig 22 Awst 2013 a oedd wedi cael ei ddsbarthu. Pe bai llwybr wedi'i gofnodi fel Ffordd Ddidodsbarth gellid dadlau bod hawl i gerbydau deithio ar hyd-ddo. Fodd bynnag, dywedwyd bod angen ystyried pob llwybr yn unigol. Er enghraifft, roedd rhai llwybrau neu rannau o lwybrau yn rhy gul i gerbydau eu defnyddio.</p>	
<p>Eitem 9 Ymgynghoriad ynghylch Plismona Gwledig - KB</p> <p>Cyfeiriodd KB at yr ymgynghoriad presennol ynghylch Plismona Gwledig gan Heddlu Dyfed-Powys ac anogodd yr aelodau i ymateb iddo. Eglurwyd bod 13 o gwestiynau. Yn ychwanegol at rai cwestiynau eithaf penodol, eglurwyd bod cwestiwn pen agored a oedd yn gwahodd sylwadau ynghylch unrhyw faterion plismona gwledig. Roedd gwahanol faterion wedi cael eu codi e.e. llwybrau troed ger eiddo a oedd yn rhoi'r hawl i'r cyhoedd gael mynediad iddynt bob awr o'r dydd a'r nos; cerbydau amaethyddol a gofynion MOT; diogelwch marchogion ceffylau ar ffyrdd.</p>	
<p>Eitem 10 Adolygu Arferion Gweithio Fforymau Mynediad Lleol</p> <p>Roedd JT wedi dosbarthu Adolygiad o Arferion Gweithio Fforymau Mynediad Lleol gan Gyfoeth Naturiol Cymru. Roedd y Fforwm wedi trafod yr 20 cwestiwn. Roedd 19 o gwestiynau pellach i'w cwblhau gan Ysgrifennydd Fforwm Mynediad Lleol. Roedd Cyfoeth Naturiol Cymru wedi gofyn i'r atebion gael eu cyflwyno erbyn 30 Tachwedd 2013.</p> <p>Cyfeiriai'r llythyr a anfonwyd gyda'r holiadur at yr anhawster yr oedd rhai Fforymau yn ei gael i recriwtio aelodau newydd. Roedd Fforymau Mynediad Lleol wedi cael eu diddymu mewn rhai o ardaloedd Cymru.</p> <p>Teimlai'r aelodau y dylai aelodau'r Fforwm wneud ymdrech i ddod i'r cyfarfodydd gan mai dim ond 3 neu 4 ohonynt a gynhelid fel arfer mewn blwyddyn. Cytunwyd pe bai aelodau'n methu 3 chyfarfod heb gyflwyno ymddiheuriadau yna dylai'r Ysgrifennydd ysgrifennu atynt i ofyn a oeddynt am barhau i fod yn aelod.</p> <p>Roedd yr aelodau o'r farn y byddai'n dda cael pobl iau i fod yn rhan o'r Fforwm Mynediad Lleol. Cytunwyd y dylai Recriwtio i'r Fforwm Mynediad Lleol fod yn eitem ar agenda'r cyfarfod nesaf.</p>	<p>JT</p> <p>JT</p>
<p>Eitem 11 Mapiau Mynediad Agored - PS (Cyfoeth Naturiol Cymru)</p> <p>Rhoddodd PS, Cyfoeth Naturiol Cymru, ddiweddariad ynghylch adolygiad 10 mlynedd y corff hwnnw o'r Mapiau Mynediad Agored. Nid oedd mapiau Sir Gaerfyrddin wedi newid yn sylweddol ond ychwanegwyd 60 hectar o dir Mynydd Pencarreg. Roedd y mapiau hyn yn rhai amodol bellach ac yr oedd Cyfoeth Naturiol Cymru wedi ysgrifennu at y tiffeddianwyr yr effeithid arnynt.</p>	

<p>Eitem 12 Unrhyw Fater Arall</p> <p>Ffermydd Gwynt Brechfa – Cyfeiriodd KB a JG at y cynlluniau i gysylltu'r Ffermydd Gwynt â'r grid cenedlaethol.</p> <p>Datblygiad Gorllewin Cross Hands - cyfeiriodd KB at y cais am wyro llwybr troed o dan ddarpariaethau Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, a oedd yn parhau i dderbyn sylw er mwyn i'r datblygiad fynd yn ei flaen.</p> <p>Cau/Trosglwyddo Cyfleusterau Cyhoeddus - mynegodd yr aelodau bryder ynghylch cynlluniau'r Cyngor Sir i drosglwyddo cyfrifoldebau i'r Cyngorau Tref a Chymuned. Roeddynt yn ofni y gallai hyn arwain at gau rhai o'r cyfleusterau. Byddai LT yn drafftio llythyr i'w anfon at y Cyngor Sir.</p> <p>Aelod Newydd – Roedd David Stacey wedi cyflwyno cais am ymuno â'r Fforwm Mynediad Lleol a chyflwynodd ei hun. Mae David yn feiciwr brwd ac yn aelod o Sustrans. Roedd y Fforwm Mynediad Lleol wedi cymeradwyo'i gais ac wedi'i groesawu fel aelod newydd.</p>	
<p>Eitem 13 Dyddiad/Lleoliad y Cyfarfodydd Nesaf</p> <p>Cytunwyd ar ddyddiadau'r cyfarfod nesaf a chyfarfodydd yn y dyfodol:</p> <p>6pm Dydd Iau 21 Tachwedd 2013 – Canolfan Bowlio Dan Do Dinefwr, Rhydaman</p> <p>6pm Dydd Iau 20 Chwefror 2014 – y man cynnal i'w gyhoeddi</p>	